Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ysgol Gynradd Halfway
Havard Road
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA14 8SA

08/09/2024

Annwyl Jayne Thomas

**Ymweliad interim:** Medi 2024

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Halfway yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd yn mynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'i harolygiad craidd ym mis Rhagfyr 2022. Ceir crynodeb isod o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny. Dylai arweinwyr ddefnyddio'r canfyddiadau hyn i gefnogi mwy o welliannau yn y meysydd hyn.

At ei gilydd, mae arweinwyr a staff yn yr ysgol wedi gweithio'n dda i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau presennol yr ysgol a'i meysydd i'w gwella, ac mae ganddynt gynlluniau synhwyrol ar waith i barhau i symud yr ysgol ymlaen.

**Ffocws yr ymweliad**

**Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n fwy helaeth ac yn annibynnol**

- Mae uwch arweinwyr wedi rhoi ystyriaeth ofalus i ymagwedd ysgol gyfan at ddatblygu ysgrifennu ar draws yr ysgol. Maent wedi cydweithio â staff i greu trosolwg o fathau o destun, yn cynnwys amlinelliad bras o fedrau ysgrifennu ar draws pob dosbarth.
- Mae uwch arweinwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i athrawon rannu arfer dda trwy sesiynau 'addysgu tîm'. Mae hyn wedi creu ymagwedd gadarnhaol a chyson at addysgu ysgrifennu ar draws yr ysgol.
- Mae staff yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen yn cynllunio gweithgareddau addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau echddygol manwl a hyrwyddo medrau ysgrifennu trwy chwarae dychmygus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn dechrau cyfathrebu'n effeithiol trwy dynnu lluniau a thrwy greu marciau gan ddefnyddio ystod o adnoddau.

- Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn ysgrifennu'n ddestlus ac yn ymfalchïo yn eu gwaith. Fodd bynnag, mae hyn yn anghyson ar draws yr ysgol.
- At ei gilydd, mae disgwyliad athrawon o ysgrifennu disgyblion yn briodol i'w hoedran a'u gallu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau ysgrifennu ac yn ysgrifennu'n frwdfrydig yn ystod sesiynau 'ysgrifennu rhydd'. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu gallu i ysgrifennu'n estynedig yn dda, maent yn defnyddio atalnodi sylfaenol yn gywir, ac yn aml yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir. Fodd bynnag, nid oes gan ychydig o ddisgyblion y medrau sydd eu hangen i drefnu a chyfleu eu syniadau'n glir.
- Mae uwch arweinwyr yn monitro effaith camau datblygu'r ysgol ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion yn rheolaidd. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am y cyrhaeddiad mewn ysgrifennu ar gyfer unigolion a grwpiau o ddysgwyr dros gyfnod.
- Mae athrawon yn dechrau datblygu dealltwriaeth gadarn o'r medrau ysgrifennu unigol ar gyfer disgyblion yn eu dosbarth a'u camau nesaf mewn dysgu. Fodd bynnag, mae uwch arweinwyr yn cydnabod bod angen iddynt gynllunio mwy o gyfleoedd i staff drafod dilyniant mewn ysgrifennu a chanolbwyntio gweithgareddau monitro yn fwy craff ar gynnydd mewn medrau ysgrifennu.
- At ei gilydd, mae uwch arweinwyr a staff wedi creu diwylliant ysgrifennu cadarnhaol ar draws yr ysgol.

**Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio medrau rhifedd yn annibynnol ar draws y cwricwlwm**

- Mae uwch arweinwyr wedi datblygu trosolwg addas o weithgareddau rhifedd ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn dechrau defnyddio'r trosolwg hwn i gynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu rhifedd ar draws y cwricwlwm.
- Mae athrawon yn defnyddio ystod o dystiolaeth uniongyrchol a hunanasesiadau disgyblion i'w hysbysu am y cynnydd a wna disgyblion mewn mathemateg. Lle mae hyn yn fwyaf effeithiol, mae athrawon yn ystyried gallu mathemategol y disgyblion yn ofalus wrth gynllunio gweithgareddau rhifedd, ac mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd ar yr un lefel ag y maent mewn gwersi mathemateg.
- Yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau dysgu sylfaen, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau mathemateg a rhifedd mewn amgylchedd dysgu cyfoethog. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn defnyddio eu dealltwriaeth gynnar o rif trwy chwarae dychmygus yn fedrus.
- Mae disgyblion hŷn yn siarad yn hyderus am eu dysgu a sut maent yn cymhwyso'u gwybodaeth fathemategol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ddefnyddio'u gwybodaeth am gyfesurynnau i leoli lleoedd pwysig ar daith y Titanic.
- Mae uwch arweinwyr yn mesur cynnydd disgyblion mewn mathemateg ac yn nodi unrhyw fylchau mewn dysgu a dealltwriaeth yn dda. Fodd bynnag, mae'r rhain yn tueddu i ganolbwyntio'n rhy agos ar asesiadau ffurfiannol. Mae uwch arweinwyr yn cydnabod bod angen datblygu dealltwriaeth athrawon o ddilyniant medrau mathemategol ymhellach i nodi'r camau nesaf mewn dysgu a sicrhau bod gweithgareddau rhifedd yn addas o heriol.

- Mae arweinwyr yn monitro ansawdd yr addysgu a'r dysgu mewn mathemateg a'r cyfleoedd ar gyfer datblygu rhifedd yn rheolaidd. Mae eu gwerthusiadau yn gywir, ac mae ganddynt gynlluniau addas ar waith i ddatblygu'r maes hwn ymhellach.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn achosi unrhyw bryder.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan: [http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6692188](http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6692188)

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol